

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 16 Ebrill 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

Ffyniant Cymoedd De Cymru

C6 Geraint Davies: Sut y mae Prif Weinidog Cymru yn cydlynu polisiâu'r Cynulliad er mwyn sicrhau ffyniant hirdymor i gymoedd y De? (OAQ16826) *Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.*

Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan): Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwmo'n llwyr i weithredu polisiâu a fydd yn sicrhau ffyniant hirdymor i Gymru gyfan, gan gynnwys cymoedd y De.

Yr ydym wedi cyhoeddi cymorth gwerth £7 miliwn yn ddiweddar drwy'r pecyn Corus i ailagor llinell rheilffordd Glynebwy i deithwyr. Yn 2001, yr oedd 22 o brosiectau buddsoddi uniongyrchol o dramor i mewn i ardal cymoedd y De, ac y disgwylir y byddant yn creu bron i 1,500 o swyddi newydd a diogelu dros 1,200 o swyddi eraill. Disgwylir mai £79 miliwn fydd cyfanswm y gwariant cyfalaf ar y prosiectau hyn.

Cod Ymddygiad y Gweinidogion

C11 Jocelyn Davies: A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar effeithiolrwydd cod ymddygiad y Gweinidogion ers ei gyflwyno? (OAQ16829)

Prif Weinidog Cymru: Mae cod y gweinidogion yn effeithiol a chynhwysfawr ac fe fydd o gymorth inni wrth ymgymryd â'n dyletswyddau swyddogol yn y ffordd a fydd yn diogelu'r safonau gorau.

Perthynas Gweinidogion â Chyrff Allanol

C12 Rhodri Glyn Thomas: Sut y mae Prif Weinidog Cymru yn monitro'r berthynas rhwng ei gyd-Weinidogion a chyrff allanol? (OAQ16827)

Prif Weinidog Cymru: Yr wyf yn cwrdd â'm Gweinidogion i gyd yn rheolaidd, yn y Cabinet a fesul un.

Buddion i Ddwyrain De Cymru

C13 Brian Hancock: Sut y mae polisiâu Llywodraeth Cymru wedi bod o fudd i Ddwyrain De Cymru? (OAQ16828)

Prif Weinidog Cymru: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio yn Nwyrain De Cymru, fel y mae hi ledled Cymru, i gyflawni ei pholisiâu i ledaenu ffyniant ariannol a darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol yn y tymhorau canolig a hir, yn unol ag y'u disgrifiwyd yn 'Cynllun i Gymru 2001'.

Yr ydym wedi cyhoeddi yn ddiweddar gynllun adnewyddu cymuned Bargoed Fwyaf a fydd, yn ôl yr amcangyfrif, yn costio £17.4 miliwn. Mae hynny'n rhan o becyn mawr o fuddsoddi ymhellach mewn trafndiaeth yng Nghymru yn ystod 2002-03. Yn 2001, cafwyd 22 o brosiectau buddsoddi uniongyrchol o dramor yn rhanbarth etholiadol Dwyrain De Cymru. Disgwylir y bydd cyfanswm gwariant cyfalaf ar y prosiectau hyn dros £120 miliwn ac y bydd yn creu dros 1,500 o swyddi newydd a diogelu 1,500 o swyddi eraill.

Effaith y Gyllideb Arfaethedig ar Gymru

C14 Peter Black: Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael â Changhellor y Trysorlys ar effaith y gyllideb arfaethedig ar Gymru? (OAQ16811)

Prif Weinidog Cymru: Bu cyfarfodydd a gohebiaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Trysorlys ar lefelau swyddogol a gweinidogol.

Datblygu'r Banc Cyffredinol

C15 Ann Jones: Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael â Swyddfa'r Post ynghylch datblygu'r banc cyffredinol? (OAQ16815)

Prif Weinidog Cymru: Er nad wyf wedi cyfarfod â Consignia yn unswydd i drafod banc cyffredinol, caf ar ddeall fod cynnydd da yn cael ei wneud tuag at ei weithredu, a'i fod ar y trywydd iawn i'w gyflwyno pan gaiff taliadau budd-daliadau ei wneud drwy drosglwyddo credyd awtomatig yn 2003.